

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Allure Aesthetics, Pontllan-fraith

Dyddiad yr arolygiad: 25 Mai 2023

Dyddiad cyhoeddi: 25 Awst 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn
ysgrifened
ig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83504-504-6

© Hawlfraint y Goron 2023

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystywyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom	5
2. Crynodeb o'r arolygiad.....	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym	9
• Ansawdd Profiad y Claf	9
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	15
4. Y camau nesaf	17
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	18
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	19
Atodiad C - Cynllun gwella.....	20

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Allure Aesthetics ar 25 Mai 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 14 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Allure Aesthetics yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'r cleifion mewn amgylchedd modern a chroesawgar. Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod y cleifion yn cael gwybodaeth fanwl cyn ac ar ôl y driniaeth fel y gallent wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Roedd y canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben a ddarparwyd gan y rheolwr cofrestredig yn unol â'r rheoliadau ac roedd yr adborth a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn gadarnhaol iawn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gan y lleoliad drefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion
- Amgylchedd croesawgar a modern
- Staff cefnogol wrth gynllunio triniaeth
- Adborth cadarnhaol gan gleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol. Roedd y triniaethau yn cael eu cynnal ar dri llawr ac roedd pob ystafell yn diogelu urddas a phreifatrwydd y cleifion.

Roedd cyfarpar cymorth cyntaf priodol ar y safle ac roedd aelodau o'r staff wedi cael hyfforddiant perthnasol. Roedd tystiolaeth bod y diffoddwyr tân yn cael eu gwasanaethu'n flynyddol ac roedd asesiadau risg tân wedi'u sefydlu ar gyfer y safle. Roedd warden tân dynodedig, ac roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelwch tân.

Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad:

Nododd AGIC fod y darparwr yn defnyddio dau beiriant laser ar y safle nad oeddent wedi'u nodi ar dystysgrif cofrestru'r lleoliad, sef y peiriannau laser 3D Vjuve a 3D Nanosure. Gwnaethom roi gwybod i'r rheolwr cofrestredig fod defnyddio'r peiriannau laser hyn yn torri cofrestriad y lleoliad. Cytunodd y gwasanaeth i roi'r gorau i ddefnyddio'r peiriannau laser ac y byddai hyn yn parhau tan y caiff amodau addasu cofrestriad eu cyflwyno i AGIC a bod yr hysbysiad o benderfyniad diweddaraf wedi'i gyhoeddi.

Gellir dod o hyd i'r manylion yn y Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad yn [Atodiad A](#).

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gwybodaeth am y cleifion yn cael ei storio'n ddiogel
- Roedd yr ystafelloedd trin yn lân iawn ac yn cynnwys digon o adnoddau
- Roedd y peiriant laser a ddefnyddir yn y lleoliad yn cael ei wasanaethu a'i gynnal a'i gadw'n briodol i sicrhau triniaeth ddiogel.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y rheolwr cofrestredig a'i thîm yn canolbwyntio ar y cleifion ac yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau priodol i ddarparu triniaethau diogel i'r cleifion.

Roedd polisiau a gweithdrefnau amrywiol ar waith, ac adolygwyd y rhain yn unol ag amserlenni penodedig. Roedd gan y rheolwr cofrestredig hefyd brosesau ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ac yn adrodd ar y canfyddiadau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd polisiau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu mewn modd amserol
- Roedd yr adroddiadau blynyddol fel y nodir yn rheoliad 19 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 wedi'u cwblhau
- Dogfennwyd pryderon ac adborth a gweithredwyd arnynt er mwyn llywio gwelliant.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y gwasanaeth i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gofal a thriniaethau a ddarperir. Cawsom gyfanswm o 14 o holiaduron wedi'u cwblhau. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr eu bod wedi ymweld â'r lleoliad yn ystod y deufis diwethaf. Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

“Gwasanaeth heb ei ail, proffesiynol iawn.”

“Un o'r rhesymau pam y dewisiais Allure oedd ei fod yn rhoi sylw i fanylion. Mae'r glendid a'r staff cyfeillgar yn amhrisiadwy.”

“Mae pob aelod o'r staff yr wyf wedi ei gyfarfod yn broffesiynol iawn ac yn wybodus o ran y triniaethau. Ar achlysuron prin pan nad oeddent yn gwybod yr ateb, aethant i geisio cymorth. Roedd y broses ymgynghori yn faith ac roeddent yn gwirio'r manylion yn ystod pob apwyntiad cyn i mi gael triniaeth.”

“Glân a phroffesiynol iawn bob amser. Mae'r staff bob amser yn gyfeillgar iawn ac yn wybodus.”

Urddas a pharch

Cawsom ein sicrhau gan y staff y gellid cadw urddas y cleifion. Roedd bleinds ar bob ffenestr a chloeon ar ddrysau'r ystafelloedd trin a oedd yn cael eu cloi pan oeddent yn cael eu defnyddio. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y gallai cleifion newid, pe bai angen, yn yr ystafell drin. Roedd tywelion ar gael i gadw urddas lle bo angen. Dywedwyd wrthym gan bob aelod o'r staff fod cleifion yn cael eu trin gydag urddas a pharch.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno'n 'gryf' bod mesurau wedi'u cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd a'u bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd y daflen wybodaeth i gleifion a'r rhestrau prisiau i gleifion ar gael ym mhob ystafell drin ac ar wefan y gwasanaeth. Roedd y canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol. Roedd proses gwyno ar waith a oedd yn cynnwys manylion AGIC yn ôl yr angen. Atebodd pob un o'r cleifion a

gwblhaodd yr adran berthnasol yn yr holiadur eu bod yn teimlo bod y staff wedi gwranddo arnynt yn ystod eu hapwyntiad a'u bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys, cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys, mewn penderfyniadau am eu triniaeth.

Roedd y cleifion yn trefnu'r rhan fwyaf o'u triniaethau ar-lein, ond roedd hefyd opsiwn i ffonio'r lleoliad neu i drefnu apwyntiad wyneb yn wyneb yn y lleoliad, er enghraifft lle nad oedd y cleifion yn gallu defnyddio'r rhyngwyd.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Cawsom sicrwydd bod y cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Yn y rhan fwyaf o achosion, cafodd y cleifion holiadur cyn iddynt gael triniaeth i'w gwblhau cyn ymgynghoriad wyneb yn wyneb, a oedd yn cael ei gynnal cyn y driniaeth. Roedd gwybodaeth am y risgiau, buddiannau a chanlyniadau tebygol y triniaethau yn cael eu trafod yn ystod yr ymgynghoriad dan sylw. Er mwyn dogfennu hyn, roedd ffurflen yn cael ei chwblhau ar iPad y gwasanaeth, a oedd yn cael ei llenwi gan ddefnyddio'r holiadur cyn triniaeth. Roedd y rhai hynny nad oeddent yn gallu cwblhau'r ffurflen hon ymlaen llaw yn cael eu cefnogi i wneud hynny gan y staff a oedd yn cynnal yr ymgynghoriad. Rhoddwyd enghraifft o amser lle nad oedd y claf wedi llwyddo i gwblhau'r holiadur cyn triniaeth cyn yr ymgynghoriad. Cafodd y claf ei gefnogi gan y staff i gwblhau'r ffurflenni a darllenwyd y cwestiynau iddynt unwaith eto er mwyn sicrhau ei fod yn deall ac i gadarnhau ei fod yn hapus i gydsynio i'r triniaethau.

Cynllunio a darparu gofal

Adolygwyd cofnodion pum claf a chanfuwyd eu bod o safon dda. Roedd pob rhan o daith triniaeth y cleifion, gan gynnwys manylion yr holiadur cyn triniaeth, yr ymgynghoriad cychwynnol, profion croen, cydsynio i driniaeth, ynghyd â'r risgiau posibl, y sgil effeithiau a chanlyniadau tebygol y driniaeth ei chofnodi.

Roedd hanes meddygol y cleifion wedi ei gwblhau'n drylwyr a'i gofnodi ar gofnodion y cleifion cyn derbyn triniaethau, ar gyfer y driniaeth gyntaf a phob triniaeth wedi hynny. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr adran berthnasol yn yr holiadur cleifion yn cytuno bod y staff wedi gwirio eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth. Gwelsom dystiolaeth fod y wybodaeth a gasglwyd yn wreiddiol yn cael ei hailadrodd yn ystod pob sesiwn drin er mwyn gwirio am unrhyw newidiadau. Roedd adborth ar deimladau'r cleifion ar ôl y driniaeth flaenorol yn cael ei geisio bob amser. Roedd profiadau'r cleifion, gan gynnwys sgil effeithiau/buddiannau'r driniaeth, yn cael eu dogfennu yng nghofnodion y cleifion.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Rhoddodd y rheolwr cofrestredig enghreifftiau o'r ffordd yr oedd y lleoliad yn trin pob un o'r cleifion a'r staff ag urddas a pharch, wrth gynnal eu hawliau bob amser. Roedd yr hawliau hyn yn cynnwys defnyddio dewis y cleifion, a oedd yn newid

rhywedd, o ragenwau. Hefyd, roedd addasiadau rhesymol yn cynnwys staff a oedd yn feichiog neu yng nghanol eu cyfnod ôl-eni, a oedd yn cael mwy o amser rhwng cleifion i orffwys. Roedd yr oriau gwaith wedi'u haddasu er mwyn iddynt fod yn fwy cyfeillgar i deuluoedd hefyd.

Gwelsom fod gan y lleoliad bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith, a oedd yn cyfeirio at Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur cleifion nad oeddent wedi profi unrhyw wahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth hwn neu wrth ei ddefnyddio.

Dim ond yn Saesneg roedd y ddogfennaeth ar gael. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym pe bai claf yn ceisio gwybodaeth mewn iaith arall y byddai trefniadau yn cael eu gwneud i hwyluso hyn, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Roedd yr ystafelloedd trin wedi'u lleoli ar dri llawr, ac roedd yr ystafelloedd ar y llawr gwaelod yn caniatáu i'r cleifion â gofynion symudedd gael eu trin yn hawdd. Fodd bynnag, dim ond ar y llawr cyntaf a'r islawr yr oedd posibl cael triniaethau laser, felly roedd y triniaethau hyn yn gyfyngedig i'r rhai a oedd angen cymorth symudedd.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Gwelsom fod gan y practis fecanweithiau ar waith i gael safbwyntiau ac adborth y cleifion ar ôl pob triniaeth. Hefyd, roedd gan y lleoliad gymhellion, megis talebau "arian i ffwrdd" y gellid eu gwario i dalu am driniaethau yn y dyfodol er mwyn annog y cleifion i gwblhau adolygiadau ar-lein. Roedd 80 o adolygiadau ar-lein ar gyfer y gwasanaeth hwn, pob un ohonynt yn bum seren. Dywedwyd wrthym fod y rheolwr cofrestredig yn monitro pob ffurflen adborth, a'i fod yn defnyddio'r adborth hwn i adolygu a gwella'r gwasanaeth yn ôl yr angen.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch ymwelwyr â'r safle. Gwelsom fod y lleoliad yn lân ac yn drefnus iawn. Roedd y triniaethau yn cael eu cynnal mewn sawl ystafell ar dri llawr. Roedd pob ystafell yn cynnal urddas a phreifatrwydd y cleifion.

Gwelsom dystiolaeth bod cyfarpar cymorth cyntaf priodol ar gael yn y lleoliad a thystysgrifau i ddangos fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf, ac roedd swyddog cymorth cyntaf dynodedig ar waith.

Roedd asesiadau risg tân ar waith ar gyfer y safle. Roedd profion larymau tân yn cael eu cynnal yn wythnosol a gwnaed cofnod ohonynt mewn cofnodlyfr tân a oedd yn cael ei gadw y tu ôl i ddesg y dderbynfa. Gwelsom dystiolaeth bod diffoddwyr tân yn cael eu gwasanaethu'n flynyddol a bod y staff wedi cael hyfforddiant digonol i'w defnyddio. Y rheolwr cofrestredig oedd y warden tân dynodedig.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd yr ystafelloedd trin yn ymddangos yn lân, yn drefnus a heb unrhyw annibendod. Ni wnaeth yr un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur ddangos pryder am lendid y gwasanaeth, ac atebodd pob un ohonynt fod y safle yn 'lân iawn' a theimlent fod mesurau rheoli ac atal heintiau yn cael eu dilyn.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn gallu disgrifio'r trefniadau rheoli heintiau sydd ar waith yn y gwasanaeth a chyflwynodd dystiolaeth o'r amserlenni glanhau i brofi hyn. Roedd y trefniadau yn cynnwys cwblhau gwiriadau dyddiol, gydag amser wedi'i neilltuo yn ystod y bore a'r nos i'w cynnal. Roedd mesurau rheoli heintiau ychwanegol ar waith yn yr ardaloedd cymunedol bob wythnos. Roedd y polisi atal a rheoli heintiau yn cynnwys gwybodaeth ar ddiheintio'r peiriannau laser a'r darnau llaw ynghyd â dulliau hylendid dwylo priodol. Roedd hefyd yn egluro'r trefniadau ar gyfer diheintio'r byrddau trin cleifion a'r arwynebeddau gwaith cyn ac ar ôl defnyddio'r ystafell drin.

Gwelwyd fod biniau gwaredu offer miniog ym mhob ystafell a'u bod yn cael eu storio'n briodol. Roedd trefniadau gwastraff clinigol ar waith hefyd drwy ddarparwr allanol a'r cyngor lleol oedd yn gyfrifol am drefnu'r gwastraff cyffredinol.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Gwelsom dystiolaeth o systemau a dogfennau ar waith i gefnogi'r dasg o ddiogelu oedolion agored i niwed. Nid oedd plant yn cael eu trin ar y safle ac nid oeddent yn cael eu hannog i fynychu'r lleoliad gyda'u rhieni/gofalwyr. Roedd y polisi diogelu a oedd ar waith yn manylu ar y camau priodol i'w dilyn pe bai pryder ynghylch

diogelu. Roedd y polisi yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol, gan gynnwys manylion cyswllt tîm diogelu'r awdurdod lleol. Adolygwyd a diweddarwyd y ddogfen yn unol â Phrotocol Diogelu Cymru Gyfan. Roedd tystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu priodol.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi bod tri pheiriant laser yn cael ei ddefnyddio yn y lleoliad. Roedd yr holl drefniadau priodol ar waith i sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff wrth ddefnyddio'r peiriannau laser, fel y disgrifir isod. Fodd bynnag, dim ond un o'r peiriannau laser oedd wedi'u cynnwys yn y cofrestriad ag AGIC ac felly roedd yn ofynnol i'r lleoliad roi'r gorau i ddefnyddio'r peiriannau laser 3D Vjuve a 3D Nanosure hyd nes y caiff amodau addasu cofrestriad eu ceisio a'u cymeradwyo. Gwnaeth y rheolwr cofrestredig gytuno â hyn a chymerwyd y camau angenrheidiol er mwyn rhoi'r gorau i'w defnyddio.

Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau newydd, a oedd yn rhoi cymorth a chyngor ar ddefnyddio'r peiriannau laser yn ddiogel. Darparwyd cofnodlyfr gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau er mwyn cofnodi unrhyw ddiffygion o ran y peiriannau wrth eu profi. Roedd y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi adolygu'r rheolau lleol yn ystod y chwe mis diwethaf. Roedd y peiriant laser cofrestredig wedi'i wasanaethu'n flynyddol; prynwyd y ddau beiriant laser arall ym mis Awst a mis Medi 2022. Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid priodol ar gael i'r cleifion a phob gweithredwr a oedd wedi cael hyfforddiant.

Roedd protocolau triniaeth ar waith ar gyfer defnyddio'r peiriannau laser ym mhob ystafell ac roedd y protocolau hyn wedi cael eu llunio a'u cymeradwyo gan ymarferydd meddygol arbenigol ar gyfer pob peiriant. Roedd angen allweddi i weithio'r peiriannau laser, ac roedd yr allweddi hyn yn cael eu tynnu pan nad oedd y peiriannau'n cael eu defnyddio. Roedd yr allweddi'n cael eu cadw mewn sêff allweddi y tu ôl i'r dderbynfa, gyda'r peiriannau laser yn cael eu storio mewn ystafell dan glo.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystiolaeth fod pob un o'r gweithredwyr laser yn gymwys i ddefnyddio'r peiriannau laser. Roedd yr aelodau perthnasol o staff wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth o fewn y flwyddyn ddiwethaf a gwelsom dystysgrifau yn dangos hyn. Rhoddwyd gwybod i ni fod hyfforddiant gan wneuthurwr y peiriannau laser ar sut i'w gweithredu'n ddiogel wedi'i gwblhau. Roedd cloeon ar ddrysau'r ystafelloedd trin er mwyn sicrhau urddas a diogelwch y cleifion yn ystod triniaethau ac roedd arwyddion priodol wedi'u gosod ar ddrysau'r ystafelloedd trin er mwyn rhybuddio pobl i beidio â mynd i mewn pan oedd y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio. Roedd hyn yn cynnwys rhybudd golau ar ystafell drin y llawr cyntaf.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod cleifion yn cael prawf croen cyn

dechrau unrhyw driniaeth er mwyn sicrhau eu diogelwch. Lle y bo'n berthnasol, cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur ei fod wedi cael prawf croen cyn dechrau cael triniaeth laser.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Dangosodd y staff wybodaeth a dealltwriaeth gynhwysfawr o'r triniaethau a ddarparwyd ac roeddent yn meddu ar gymwysterau cydnabyddedig yn y maes ymarfer hwn. Roedd pob aelod o'r staff yn awyddus i barhau i ddatblygu'r hyn y mae'n ei ddysgu er mwyn gwella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig bwysigrwydd arsylwadau ôl-driniaeth ac apwyntiadau dilynol gyda'r cleifion er mwyn helpu i wella'r gofal a ddarperir drwy gydol y triniaethau a gynllunnir.

Rheoli cofnodion

Gwelsom dystiolaeth o brosesau cadw cofnodion da. Roedd y sampl o gofnodion a adolygwyd yn ddigon manwl ac yn glir i'w dilyn. Roedd pob elfen o'r cofnodion yn adlewyrchu taith y cleifion cyn ac ar ôl triniaethau. Roedd cofnodlyfrau triniaethau'r cleifion yn cael eu cwblhau ynghyd â'r prif gofnodion ar yr iPads yn y lleoliad. Roedd cofnodion yn cael eu cadw mewn modd trefnus a diogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Caiff Allure Aesthetics ei oruchwylio gan y rheolwr cofrestredig a'i gefnogi gan dîm o staff, yr oedd dau aelod ohono yn weithredwyr laser cymwysedig.

Roedd sawl polisi ar waith yn y gwasanaeth, a oedd yn diwallu anghenion y gwasanaeth yn ein barn ni. Roedd y polisiau wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol o hyd.

Rhodddwyd tystiolaeth i ni fod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau adroddiad blynyddol yn unol â Rheoliad 19(3) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011. Roedd hyn yn ymwneud ag asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. At hynny, roedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol y gwasanaeth yn cael ei harddangos.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd prosesau priodol ar waith ar gyfer rheoli pryderon a digwyddiadau, gan gynnwys polisi a gweithdrefn cwynion a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol gan y rheoliadau. Roedd gwefan y gwasanaeth yn manylu ar y broses gwyno hefyd.

Mae gan y practis system ar waith i gofnodi cwynion a phryderon ffurfiol ac anffurfiol. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd y clinig wedi cael unrhyw gwynion. Gwnaethom hefyd gadarnhau â'r rheolwr cofrestredig na fu unrhyw ddigwyddiadau y dylid rhoi gwybod i AGIC amdanynt yn ddiweddar. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym hefyd fod y staff yn cysylltu â'r cleifion i gael adborth yn dilyn eu triniaeth bob amser.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y broses sefydlu ar gyfer staff newydd. Roedd hyn yn cynnwys cyfnod o hyfforddiant theori, yna cyfnodau o gysgodi staff cymwysedig, ac yna gwaith theori a gwaith ymarferol pellach a oedd yn cynnwys gwaith grid a mathau croen ar gyfer yr hyfforddiant laser. Roedd goruchwylio yn rhan o'u proses sefydlu a hyfforddi, a byddai eu cymwyseddau yn cael eu cymeradwyo'n raddol. Byddai pob aelod o'r staff yn cael cyfnod prawf o dri mis a sesiynau goruchwylio rheolaidd. Unwaith y byddent wedi'u hyfforddi'n briodol neu'n gymwysedig, roedd gwiriadau dirybudd yn cael eu cynnal gan y rheolwr cofrestredig ar y gofal a'r driniaeth a ddarperir gan y staff hefyd.

Roedd pob aelod o'r staff yn cael ei gefnogi o fewn cylch ei rôl ac roedd pob un o'r gweithredwyr laser yn meddu ar gymwysterau ffurfiol. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod pob aelod o'r staff yn cael arfarniad blynyddol, ni wnaeth beth fo'u

rôl yn y lleoliad, a oedd hefyd yn helpu i gymell y staff ac i nodi unrhyw feysydd hyfforddiant pellach y gallai fod eu hangen.

Gwnaethom edrych ar ystod o ddogfennau hyfforddiant a thystysgrifau cymwysterau, gan gynnwys hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant gan y gwneuthurwr ar sut i ddefnyddio'r peiriannau laser ar gyfer y defnyddwyr awdurdodedig. Roedd y rhain yn cadarnhau bod y staff yn meddu ar gymwysterau addas i weithredu pob peiriant laser.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd y rheolwr cofrestredig yn gallu disgrifio'r broses recriwtio ar gyfer staff newydd. Darparwyd gwiriadau cyn cyflogi priodol a thystiolaeth o gymwysterau perthnasol cyn darparu unrhyw driniaethau i ni.

Gwelsom dystiolaeth fod gan y rheolwr cofrestredig a phob aelod o'r staff dystysgrifau priodol gan y Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd (DBS).

Roedd cofnodlyfrau ar gael i'r staff eu llofnodi er mwyn cadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi darllen a deall polisiau a gweithdrefnau'r gwasanaeth fel rhan o'i gyfnod sefydlu ac yn dilyn unrhyw newidiadau.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
<p>Gwelsom fod rheolwr cofrestredig y clinig laser yn caniatáu'r defnydd o ddau beiriant laser dosbarth 3 heb ei gofrestru (3D Vjuve and 3D Nanosure). Mae hon yn drosedd o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000.</p>	<p>Mae hon yn drosedd o dan Adran 24 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod pob peiriant laser wedi cael ei gofrestru gydag AGIC cyn iddo gael ei ddefnyddio gyntaf.</p>	<p>Gwnaeth yr arolygydd y rheolwr cofrestredig yn ymwybodol ar unwaith o'r gofynion o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 a rhoddodd wybod iddo fod yn rhaid iddynt roi'r gorau i ddefnyddio'r peiriannau laser Dosbarth 3 (3D Vjuve and 3D Nanosure) ar unwaith hyd nes bod AGIC wedi eu cofrestru.</p>	<p>Gwnaeth y rheolwr cofrestredig roi'r gorau i ddefnyddio'r ddau beiriant laser oedd heb eu gofrestru ar unwaith a chanslo pob apwyntiad a oedd eisoes wedi'u trefnu.</p> <p>Roedd pob hyfforddiant a phrotocol ar waith ar gyfer y peiriannau laser heb eu cofrestru, ac mae hyn wedi galluogi'r rheolwr cofrestredig i gyflwyno'r cais priodol i gofrestru'r ddau beiriant laser nad oeddent wedi'u cofrestru. Ni fydd y peiriannau yn cael eu defnyddio hyd nes y byddant wedi'u cofrestru'n ffurfiol ag AGIC.</p>

Atodiad B - Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Allure Aesthetics

Dyddiad yr arolygiad: 25 Mai 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd angen cynllun gwella ar unwaith ar gyfer yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Allure Aesthetics

Dyddiad yr arolygiad: 25 Mai 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd angen cynllun gwella ar gyfer yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau):

Swydd:

Dyddiad: